Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Glan Conwy

Ffordd Top Llan
Glan Conwy
Conwy
LL28 5NA

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Glan Conwy

Enw'r darparwr	Ysgol Glan Conwy
Awdurdod lleol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Iaith y darparwr	Cymraeg
Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg	T2 - Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	112
Disgyblion o oedran ysgol statudol	83
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	9
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%)	21.6%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%)	13.3%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	10.0%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.89%
Dyddiad penodi'r pennaeth	
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	
Dyddiad dechrau'r arolygiad	30/09/2024

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

Crynodeb

Mae Ysgol Glan Conwy yn gymuned hapus a chynhaliol sy'n hyrwyddo ethos gofalgar yn llwyddiannus. Mae perthynas waith effeithiol rhwng y staff a'r disgyblion ac mae blaenoriaeth amlwg yn cael ei gosod ar wella lles y disgyblion. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ac maent yn datblygu agweddau cadarnhaol at eu dysgu.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson mewn ystod o fedrau, gan gynnwys disgyblion o aelwydydd incwm isel a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Maent yn cael cyfleoedd buddiol i feithrin a chymhwyso eu medrau, gan gynnwys eu medrau llythrennedd mewn Saesneg a chymwyseddau digidol, ble maent yn gwneud cynnydd cadarn. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus yn ddigon cyson i ddisgyblion feithrin a chymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu.

Mae'r Gymraeg yn newydd i bron bob disgybl wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol, ac mae staff yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i ymestyn geirfa'r disgyblion yn ystod gweithgareddau dysgu ffurfiol ac anffurfiol. Er hyn, nid yw medrau siarad Cymraeg disgyblion wedi eu ddatblygu'n ddigonol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn amharod i roi cynnig ar ymateb yn Gymraeg.

Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ddulliau holi i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion ac wrth asesu eu cynnydd mewn sesiynau dysgu. At ei gilydd, nid yw'r gweithgareddau dysgu bob amser yn ddigon heriol i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn. Yn gyffredinol, nid yw'r ddarpariaeth yn galluogi disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu a sut i gyflawni a chyflwyno eu gwaith.

Mae arweinwyr a staff yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn effeithiol gan ddefnyddio prosesau hunanwerthuso cywrain a rheolaidd. Maent yn cydweithio'n bwrpasol i adnabod cryfderau'r ysgol a gweithredu ar y meysydd sydd angen eu gwella. Cynllunnir cyfleoedd hyfforddi gwerthfawr i staff ddatblygu eu medrau trwy ddysgu proffesiynol cytûn.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1 Gwella medrau siarad Cymraeg disgyblion

A2 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn llawn mewn cyd-destunau dysgu amrywiol

A3 Darparu gweithgareddau sy'n sicrhau her gyson i ddisgyblion, ac sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif arfarniad

Mae arweinyddiaeth effeithiol ac ystyriol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Caiff ei chefnogi'n dda gan dîm ymroddgar o staff sy'n dangos agweddau proffesiynol cyson. Mae gweledigaeth gytûn o 'Dyfu gyda'n gilydd', yn cael ei harddel yn llwyddiannus gan arweinwyr a staff. Mae hyn wedi'i gwreiddio'n bwrpasol yng ngwaith a naws gynhwysol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu hapus a chartrefol. Mae staff yn meithrin perthnasoedd gwaith cynhaliol â disgyblion sy'n sicrhau eu bod yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chefnogaeth. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi lles cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Mae staff wedi datblygu 'Cornel Clyd' sy'n hafan werthfawr i ddarparu sesiynau a rhaglenni cymorth pwrpasol i gefnogi disgyblion i ymdawelu ac ymgysylltu ymhellach â'u dysgu, er enghraifft.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod sesiynau dysgu ac amseroedd egwyl. Gyda chefnogaeth ystyriol aelodau'r cyngor ysgol sydd wedi datblygu defnydd o fainc ar y buarth i 'Fainc Bydi' pwrpasol er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn gofalu am ac yn cefnogi'r disgyblion ieuengaf i gyd-chwarae'n ddedwydd yn ystod amseroedd egwyl.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson ar draws ystod o fedrau, gan gynnwys disgyblion o aelwydydd incwm isel. Mae staff yn darparu cwricwlwm sy'n eang, yn briodol ac yn adeiladu ar lawer o fedrau blaenorol disgyblion yn dda. Maent yn cynllunio profiadau addas a diddorol i ddisgyblion, sy'n cynnwys ymweliadau addysgol buddiol yn eu milltir sgwâr. Yn gyffredinol, mae hyn yn eu cefnogi i fwynhau dysgu ac i ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth yn barhaus. Er hyn, nid yw'r gweithgareddau dysgu bob amser yn ymateb yn ddigon bwriadus i ddiwallu anghenion a herio'r holl ddisgyblion i wneud cynnydd cadarn.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn gyson a phrydlon, sy'n cyfrannu'n effeithiol at gyfraddau presenoldeb da. Darperir cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu o fewn themâu tymhorol. Mae staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu yn unigol, o fewn parau ac mewn grwpiau bychain yn gyson. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r disgyblion i gydweithio i drafod a datblygu eu syniadau ar y cyd mewn amgylchedd dysgu gynhwysol

Mae staff yn defnyddio dulliau holi medrus sy'n adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth disgyblion ac yn ymestyn eu dealltwriaeth ymhellach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion

yn ymateb yn gadarnhaol i'r adborth llafar maent yn ei gael gan staff er mwyn symud eu dysgu ymlaen. At ei gilydd, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion wneud penderfyniadau annibynnol am eu dysgu, a sut i gyflawni a chyflwyno eu gwaith.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae medrau Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn darllen yn gynyddol hyderus ac yn frwdfrydig wrth drin a thrafod cynnwys storïau. Wrth i fedrau'r disgyblion hŷn aeddfedu, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn fedrus ac yn meithrin medrau ysgrifennu cadarn mewn Saesneg ar draws y meysydd dysgu.

Mae staff yn hybu'r Gymraeg a Chymreictod yn bwrpasol, sy'n cyfrannu'n addas at feithrin balchder disgyblion at yr iaith Gymraeg a'u treftadaeth. O oedran cynnar, caiff disgyblion eu trochi yn yr iaith yn fwriadus ac mae staff yn fodelau rôl ieithyddol effeithlon. Er hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn amharod i roi cynnig ar siarad Cymraeg yn ddigymell y tu hwnt i ddefnyddio cyfarchion a geirfa syml, ac o ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd cyfyngedig wrth feithrin a datblygu eu medrau siarad Cymraeg.

Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau digidol yn gadarn. Fel rhan o arlwy dysgu proffesiynol werthfawr yr ysgol, mae staff yn cydweithio'n bwrpasol ag ysgolion lleol i rannu syniadau ac arferion addysgu llwyddiannus i ddatblygu medrau digidol ymestynnol disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu medrau'r disgyblion hynaf ymhellach i ddefnyddio rhaglenni codio a deallusrwydd artiffisial yn gynyddol hyderus.

Mae gan arweinwyr drefniadau effeithiol ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella sy'n sicrhau bod gan staff ddarlun clir o berfformiad yr ysgol. Maent yn dadansoddi ac yn ystyried ystod eang o dystiolaeth yn gyson, fel arsylwadau addysgu a dysgu, gwerthusiadau am gynnydd disgyblion, craffu ar waith a holi barn disgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i ddarparu cydbwysedd synhwyrol o gefnogaeth a her i arweinwyr wrth gyfrannu'n wybodus at drafodaethau am les disgyblion, safonau a'r ddarpariaeth.

Mae'r pennaeth yn manteisio'n gelfydd ar arbenigeddau aelodau'r corff llywodraethol, er enghraifft wrth graffu ar y ddarpariaeth i feithrin medrau rhifedd disgyblion sy'n dechrau datblygu'n fuddiol. Mae hyn yn dwysáu eu hymwybyddiaeth o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r meysydd i'w gwella yn effeithiol. At ei gilydd, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol yn ddigon cyson i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd mewn ystod gyfoethog o weithgareddau ar draws y meysydd dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion sydd wedi eu hadnabod ag ADY wedi'i chydlynu'n effeithiol. Mae staff yn cynnwys disgyblion, rhieni a sylwadau asiantaethau allanol i gynllunio camau nesaf disgyblion yn eu dysgu yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid yn bwrpasol i ddarparu rhaglenni cefnogi llythrennedd a rhifedd bwriadus ar gyfer disgyblion penodol, sy'n eu cefnogi i wneud cynnydd da yn eu medrau dros gyfnod.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd cynaliadwyedd ac yn ystyriol o effaith andwyol pobl ar yr amgylchedd. Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau

yn briodol ac wedi defnyddio grantiau ar gyfer adfywio llecyn ar y buarth i ddisgyblion dyfu a chynaeafu llysiau yn werthfawr. Mae staff a disgyblion yn eu defnyddio yn yr ysgol ac i'w gwerthu i'r gymuned ehangach i arbed milltiroedd bwyd. Mae'r cyfleoedd pwrpasol hyn yn meithrin disgyblion moesegol a gwybodus sy'n datblygu ymwybyddiaeth dda o fyd busnes, elw a cholled.

Mae staff yn darparu sesiynau cydaddoli rheolaidd sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn fwriadus. Mae'r cyswllt â'r capel lleol ar gyfer dathlu Diolchgarwch ac i ganu carolau Nadoligaidd i'r trigolion hŷn yn cyfrannu'n bwrpasol at hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd gwerthoedd fel parch ac empathi.

Mae cymdeithas rhieni a chyfeillion yr ysgol yn gweithredu'n effeithiol i gefnogi'r ysgol drwy gynnal amryfal weithgareddau buddiol i godi arian ar gyfer gwahanol gynlluniau'r ysgol. Yn ddiweddar, mae'r cyngor iechyd a lles wedi defnyddio cyfran o'r cyllid i fuddsoddi mewn cyfarpar pwrpasol i atgyfnerthu medrau corfforol disgyblion yn ystod cyfnodau chwarae, er enghraifft. Mae hyn yn dwysáu eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach a chadw'n heini.

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch y safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/12/2024